

Annwyl Weinidog

Ysgrifennais atoch ddiwethaf i nodi cynigion y Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni ar 16 Rhagfyr 2020. Cafodd y rhain dderbyniad da yn y seminarau a gadeiriais gyda phenaethiaid ac arweinwyr colegau ar 18 Rhagfyr, ac fe'u cefnogwyd hefyd gan undebau athrawon a Chomisiynydd Plant Cymru. Fe'u disgrifiwyd fel y ffit orau â'ch uchelgeisiau clir ar gyfer dysgwyr yn 2021. Fodd bynnag, yn dilyn eich cadarnhad ar 7 Ionawr y byddai ysgolion a cholegau'n symud i ddysgu o bell hyd nes y clywir yn wahanol, gwn eich bod wedi bod yn pryderu am y goblygiadau posibl o ran dysgu ac addysgu, a lles dysgwyr, i'r rhai sy'n gwneud cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru yn 2021. Dyma'r cyd-destun lle cyhoeddwyd canslo ffenestr asesu'r gwanwyn ar frys.

Ers hynny, mae'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni wedi cyfarfod i addasu ac adeiladu ar y cynigion presennol yng ngoleuni'r newid i ddysgu o bell. Mae'r grŵp yn gwbl glir bod yn rhaid i'r blaenoriaethau presennol ar gyfer lles, dilyniant a gwneud y mwyaf o addysgu a dysgu barhau. Ni allwn fethu'r genhedlaeth hon o ddysgwyr drwy fethu â rhoi cyfleoedd iddynt gael eu cydnabod am yr hyn y maent yn ei wybod a'i ddeall. Mae'r grŵp yn benderfynol o'u cefnogi gan eu bod yn eu cael eu hunain yn yr amgylchiadau cynyddol hynod hyn. Rydym yn glir bod yn rhaid i unrhyw gynigion a gynigiwn fod yn wydn i bob sefyllfa bosibl yn y dyfodol, o ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch Covid-19 a'i amrywiolion. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd fod yn obeithiol, a chefnogi ein dysgwyr yn hyderus yn eu dysgu a'u dilyniant i'r camau nesaf.

Fel grŵp o benaethiaid ac arweinwyr colegau o bob cwr o Gymru, sy'n adlewyrchu lleoliadau gwledig a threfol, y Gymraeg a'r Saesneg, pob rhanbarth, a gwahanol feintiau o ysgolion a cholegau, mae'n amlwg bod amrywiaeth o safbwyntiau o hyd, ond rydym wedi dod at ein gilydd o amgylch ffyrdd ymlaen y gallwn eu cefnogi. Rydym hefyd wedi myfyrio ar argymhellion yr adolygiad annibynnol o gymwysterau yn 2020, dan gadeiryddiaeth Louise Casella, yn ein trafodaethau, yng nghyd-destun cylch gwaith y grŵp.

Mae'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni wedi cadarnhau ei farn y dylai pob dysgwr dderbyn gradd yn seiliedig ar dystiolaeth o ddysgu, ac, yn hanfodol, y dylid eu hasesu ar y cynnwys a gwmpesir gan eu hysgol neu goleg, gan gynnwys gwaith hanfodol y mae angen ei gwblhau rhwng yr adeg hon a'r haf, a hynny o dan amgylchiadau anarferol iawn. Ni ellir ac ni ddylid disgwyl iddynt gael eu hasesu ar yr hyn nad ydynt wedi cael y cyfle i'w ddysgu. Ein prif flaenoriaeth yw y dylai ysgolion a cholegau allu parhau o hyn ymlaen i flaenoriaethu eu haddysgu i gwmpasu'r pwyntiau a chysyniadau allweddol a fydd yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen drwy bob maes pwnc. Dylid trefnu asesu i gefnogi'r hyn y mae dysgwyr yn ei ddysgu hyd y gorau o'u galluoedd.

Bydd yr addasiadau presennol ar gyfer 2021 a gyhoeddwyd gan CBAC yn yr haf yn parhau. Bydd athrawon yn gallu defnyddio'r ystod o waith y bydd dysgwyr wedi'i gynhyrchu rhwng dechrau a diwedd eu cyrsiau er mwyn cefnogi'r broses o

benderfynu ar radd briodol ar gyfer pob dysgwr. Dylai'r ystod hon o dystiolaeth yn cyfrannu at radd a bennir gan ganolfan ar gyfer pob dysgwr ym mhob cymhwyster.

Mater i'r ganolfan fydd penderfynu a threfnu unrhyw broses fewnol i ddarparu hyder a chysondeb o ran dull gweithredu. Bydd proses pob canolfan (ar gyfer pennu gradd derfynol a bennir gan y ganolfan) yn destun sicrwydd ansawdd gan CBAC; ni fydd CBAC yn sicrhau ansawdd pob gradd unigol. Gan fod y radd yn cael ei dyfarnu gan y ganolfan, os bydd y dysgwr yn anfodlon ar y radd a bennir gan y ganolfan, bydd yn gallu apelio i'w ganolfan. Os bydd dysgwr yn anfodlon ar ganlyniad ei apêl i'w ganolfan, bydd llwybr apelio i CBAC ar y sail nad yw ei ganolfan wedi dilyn ei phroses ar gyfer pennu'r radd.

Mae'r Grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni yn cynnig ymhellach ei fod yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru a CBAC i ddatblygu fframwaith asesu. Bydd y canllawiau hyn yn helpu ysgolion a cholegau i benderfynu ar y mathau o dystiolaeth (asesiad di-arholiad, gwaith dosbarth, gwaith cartref, deunyddiau a gynhyrchir gan CBAC) i'w defnyddio i benderfynu ar eu graddau a bennir gan ganolfan a darparu tystiolaeth ar eu cyfer. I gefnogi athrawon a darlithwyr, bydd CBAC yn datblygu cyfres o ddeunyddiau asesu wedi'u haddasu sy'n adlewyrchu'r unedau a addaswyd ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn rhannau o gyn-bapurau a fyddai wedi'u defnyddio yn y cynnig blaenorol ar gyfer yr elfennau asesu 'mewnol' neu 'allanol' yn y dull tri philer. Bydd y deunyddiau hyn ar gael i ysgolion a cholegau i'w cynorthwyo i gynnal asesiad. Bydd CBAC hefyd yn darparu cynlluniau marcio a ffiniau graddau tybiannol i gefnogi athrawon a darlithwyr i farcio. Ni ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar sut na phryd y defnyddiwyd y rhain, a dim goruchwyliaeth gan CBAC nac eraill: byddai'r deunyddiau'n cael eu darparu i ysgolion a cholegau at ddibenion cefnogi asesu a helpu i ddarparu tystiolaeth yn unig. Gallai'r asesuadau hyn helpu hefyd i ysgogi dysgu parhaus yn ystod y cyfnod heriol hwn, a gallent hefyd ddarparu tystiolaeth ddefnyddiol i ategu penderfyniadau graddio mewn unrhyw broses apelio. O'r herwydd, dylid eu hystyried yn adnodd defnyddiol i athrawon a darlithwyr ei ddefnyddio. Fe'u profwyd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chydraddoldebau ac maen nhw wedi cael eu defnyddio ar gyfer carfannau blaenorol. Dylai'r deunyddiau asesu hyn, er nad ydynt yn orfodol, fod yn rhai y byddai athrawon a dysgwyr yn awyddus i'w defnyddio i gefnogi addysgu a dysgu ac i ddarparu tystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer barn athrawon.

Dylai'r fframwaith asesu y mae angen ei ddatblygu hefyd ddarparu arweiniad a chynghor ar y broses i benderfynu ar radd derfynol (gan gynnwys manylion opsiwn deunyddiau asesu CBAC, dod i'r dyfarniadau, penderfynu ar radd derfynol, a'r rhesymeg a ddefnyddir). Mater i'r athro/darlithydd fydd penderfynu ar sut i ddefnyddio'r gwahanol fathau o dystiolaeth, ac efallai y bydd symiau amrywiol o dystiolaeth yn seiliedig ar gyd-destun profiad dysgu carfannau ysgol unigol. Dylai hefyd gyfrannu at ddatblygiad y prosesau sicrhau ansawdd ehangach, gan gynnwys mapio sut y dylai canolfan benderfynu ar ei graddau ar gyfer pob dysgwr, sicrhau bod y prosesau hyn wedi ennill cefnogaeth cyn cyflwyno'r graddau terfynol, a sampl o gofnodion gwneud penderfyniadau i CBAC.

Mae'r syniad o raddau a *bennir* gan ganolfannau yn cadarnhau'n glir na fydd proses ystadegol yn ymyrryd: fodd bynnag, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu fframwaith asesu, bydd y Grŵp Dylunio a'i bartneriaid yn ystyried dulliau o hyrwyddo cysondeb ledled Cymru.

Mae'r grŵp yn cydnabod yr amhariad ar gynllunio'r asesiad di-arholiad, sydd wedi'i gymhlethu ymhellach gan y newid i ddysgu o bell. Mae'r grŵp yn cynnig bod yr asesiad di-arholiad ffurfiol gan CBAC yn cael ei ganslo, er mwyn dileu'r pwysau hyn o ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, mae'r grŵp o'r farn y gall yr asesiad di-arholiad gael ei ddefnyddio gan ysgolion a cholegau fel rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir wrth iddynt benderfynu ar raddau.

Mae'r grŵp hefyd yn cynnig y bydd dysgwyr ym Mlwyddyn 10 sy'n cwblhau eu cymwysterau eleni yn gymwys i gael gradd a bennir gan y ganolfan, fel y bydd dysgwyr ym Mlwyddyn 12. Yn yr un modd â 2020, gan y bydd dysgwyr Blwyddyn 12 yn derbyn gradd yn hytrach na marciau, ni fydd yn cyfrannu at eu cymhwyster ym Mlwyddyn 13: fodd bynnag, bydd ganddynt ardystiad ar y dysgu y maent wedi'i gyflawni eleni a fydd yn werthfawr am eu cymhelliant a'u dilyniant, gan gynnwys cyfraniad sylweddol i gefnogi eu ceisiadau i sefydliadau addysg uwch drwy broses UCAS.


Mae'r dull sy'n cael ei gynllunio yn rhoi ymddiriedaeth yn ymrwymiad athrawon i flaenoriaethu addysgu a dysgu craidd yn yr amser sydd ar gael, a'u gwybodaeth am ansawdd gwaith eu dysgwyr. Rydym wedi ceisio gwneud y dull mor syml ond hyblyg â phosibl, a chyflawni cymaint o ddysgu ag y bo modd yn yr amser sydd ar gael.

Os caiff y ffordd hon ymlaen ei derbyn gennych chi a Cymwysterau Cymru, mae aelodau'r Grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni wedi ymrwymo i gefnogi Cymwysterau Cymru a CBAC yn y camau nesaf, ac i gefnogi dull o ddysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod athrawon a darlithwyr yn gallu cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn ystod cyfnod mor heriol. Gan weithio'n gyflym, bydd y grŵp yn troi at y fframwaith asesu yn ystod yr wythnosau nesaf, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu canllawiau ar dystiolaeth, graddio, sicrhau ansawdd ac apeliadau. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried sut y gellir cynnwys ymgeiswyr preifat yn y dull hwn, gan gydnabod nad oedd llawer yn gallu ennill cymhwyster o dan y dull gradd asesu canolfannau yn 2020, y mae'n rhaid i ni geisio ei osgoi yn 2021. Bydd materion cydraddoldeb yn cael eu nodi drwy gydol yr ystyriaeth hon, fel sydd wedi'i wneud drwy gydol ein hystyriaethau hyd yma. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried y Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'r rhain yn faterion arwyddocaol a heriol ac rwy'n ddiolchgar am broffesiynoldeb parhaus aelodau'r Grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni a'u hymdrechion i ddatblygu dull o gefnogi dysgwyr. Mae tri o'n haelodau wedi cadeirio is-grwpiau – Marc Belli, Sarah Sutton a Mark Leighfield – ac rwy'n ddiolchgar iawn iddynt.

Mae'r misoedd nesaf yn hanfodol i'n dysgwyr ac mae'r grŵp wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi lles ein dysgwyr, gan sicrhau dulliau gweithredu sy'n cadarnhau'r gorau y gallwn ei wneud o ran cydraddoldeb a thegwch, ac ymrwymiad i sicrhau y gall athrawon a darlithwyr flaenoriaethu'r meysydd dysgu allweddol sydd eu hangen i sicrhau na fydd ein dosbarth yn 2021 dan anfantais am byth oherwydd diffyg

gwybodaeth am y cysyniadau craidd ym mhob pwnc, neu drwy gael eu hasesu ar gyfer pethau na allant eu gwybod o bosibl.

Mae cryn dipyn o waith eto i'w wneud yn yr amseroedd heriol hyn, ond mae'n hanfodol bod athrawon a dysgwyr yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith i sicrhau'r dilyniant gorau posibl i bob un o'n dysgwyr.

A handwritten signature in black ink, reading 'Geraint Rees' in a cursive style.

Geraint Rees
Cadeirydd,
Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni